Llywodraeth Cymru – Cronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog yn Ysgolion Cymru (2020/21)

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru: £250,000 i gefnogi plant y lluoedd arfog yn ysgolion Cymru

Bydd £200,000 yn cael ei ddosbarthu i'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn seiliedig ar gynlluniau cyllido a ddatblygwyd gan SSCE Cymru.

Blaenoriaethau'r prosiect

- Cydweithio rhwng awdurdodau lleol ac/ neu ysgolion
- Yn seiliedig ar anghenion lleol plant y lluoedd arfog
- Mewn ysgolion sy'n arddangos arferion da ac yn rhagweithiol wrth gefnogi eu plant o'r lluoedd arfog
- Canolbwyntio ar sefydlu ymarfer da
- Cael effaith gynaliadwy y gellir ei mesur.

Llinell amser

Tachwedd 2020 – Ionawr 2021

Mae Awdurdodau Lleol yn gweithio gydag SSCE Cymru a'r Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog i:

- Nodi nifer a lleoliad Plant y Lluoedd Arfog
- Ymgynghori ag ysgolion
- Coladu dealltwriaeth ac anghenion Plant y Lluoedd Arfog
- Ymchwilio i ffyrdd y gellid defnyddio'r cyllid sydd ar gael iddynt.

Chwefror 2021

Bydd swm y cyllid a ddyrennir i bob awdurdod lleol yn cael ei gadarnhau gan SSCE Cymru yn seiliedig ar y nifer o Blant y Lluoedd Arfog a gaiff eu nodi.

Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol ddatblygu a chyflwyno 'Cynllun ariannu' i SSCE Cymru i'w gymeradwyo a fydd yn cynnwys:

- Sut y caiff y cyllid ei ddosbarthu rhwng ysgolion / clystyrau o ysgolion
- Crynodebau o bob prosiect
- Cynlluniau ar gyfer mesur yr effaith.

Mawrth – Gorffennaf 2021

Bydd gweithgareddau prosiect yn cael eu cynnal.

Medi - Hydref 2021

Bydd Awdurdodau Lleol yn cynnal archwiliad i nodi effeithiau'r prosiectau, i'w cyflwyno i SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU